# Gadewch inni ymchwilio i'n hardal leol!

| | |
|---|---|
| **Cefndir** | Mae strydoedd ac adeiladau lleol yn adnoddau addysgu amhrisiadwy a dylech achub ar bob cyfle i ddatblygu gwaith awyr agored. Mae stryd yn ganolbwynt rhagorol ar gyfer ymchwil ddaearyddol a hanesyddol. |
| **Nod** | Datblygu sgiliau maes gwaith daearyddol y dysgwyr drwy gynnal ymchwiliad i'w hardal leol ar raddfa fach. |
| **Cynnwys** | 5 gweithgaredd |
| **Amseru** | 1 tymor |
| **Oedran targed** | Blynyddoedd 5 a 6 |
| **Cysylltiadau'r LNF** | wedi'u rhestru ar gyfer y gweithgareddau penodol drwy ddefnyddio codau llwybrau sgiliau'r fframwaith. |

## Gweithgaredd pellach

# Beth allwch chi ei weld yn eich ardal leol?

| nodwedd naturiol | nodwedd ddynol | gwasanaeth | trafnidiaeth | hamdden | diwylliant |
|---|---|---|---|---|---|
| afon | adeilad | llyfrgell | ffordd | canolfan hamdden | capel |

**Cwestiynau i'w hystyried** wrth edrych ar yr awyrlun neu'r map o'u hardal leol, e.e.

Sut ardal yw hi a pham? Ble mae pobl yn byw? Ble mae pobl yn gweithio?

Pam mae pobl yn ymweld â'r ardal leol? Ble maen nhw'n aros? Ble maen nhw'n bwyta? Beth maen nhw'n ei wneud yma?

Beth sy'n digwydd a pham?

Sut mae'r lle yma yr un fath â lleoedd eraill neu'n wahanol iddyn nhw a pham?

Sut a pham mae'n hardal leol ni'n newid?

Sut mae lleoedd ac amgylcheddau'n cael eu cysylltu â lleoedd ac amgylcheddau eraill? Sut mae pobl yn teithio o gwmpas yr ardal leol?

Sut mae pobl wedi gofalu am y lle neu'r amgylchedd hwn? Sut galla i a phobl eraill ofalu am yr amgylchedd?

## Her

Allwch chi ddod o hyd i'r nodweddion hyn ar yr awyrlun o'ch ardal leol? Defnyddiwch gyfesurynnau a chyfeirnodau pedwar ffigur.

## Nodiadau i Athrawon

Llwybrau Sgiliau Rhifedd – M9 = Arwynebedd a chyfaint, ongl a safle: Cyfeiriad
Llwybrau Sgiliau Llythrennedd – OS2 = Llafaredd – Siarad: Esbonio a chyflwyno; WM3 = Trefnu Gwybodaeth a Syniadau: Ysgrifennu cynllun. WI2 = Ysgrifennu'n Gywir: Defnyddio geirfa

## Gweithgaredd pellach

# Beth all pobl ei wneud yn eich ardal leol?

Astudiwch fap neu ffotograffau o'ch ardal leol. Beth all pobl ei wneud yn eich ardal leol?

Trafodwch eich syniadau gyda phartner.

Defnyddiwch y tabl isod i'ch helpu i gofnodi'ch gwaith.

| Gweithgaredd | Lleoedd i aros | Lleoedd i fwyta | Lleoedd i ymweld â nhw | Lleoedd i weithio | Lleoedd i'w mwynhau |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | | |

## Nodiadau i Athrawon

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: OS3 – Llafaredd – Siarad: Trefnu syniadau/siarad. OL1 – Llafaredd – Siarad: Gwrando ar bobl eraill. WM1 = Ysgrifennu: Trefnu Gwybodaeth a Syniadau: Ysgrifennu at bwrpas. WS5 – Strwythur a Threfn: Defnyddio delweddau gweledol. WL1 - Ysgrifennu'n Gywir: Defnyddio iaith briodol.

## Gweithgaredd pellach

# Oes arwynebau neu ddeunyddiau diddorol wedi'u defnyddio yn eich ardal leol?

**Ewch allan i'ch ardal leol i wneud arolwg.**

Sawl math gwahanol o ddeunyddiau adeiladu allwch chi ddod o hyd iddyn nhw yn eich ardal leol?

Sawl math gwahanol o arwynebau allwch chi ddod o hyd iddyn nhw ar y llawr yn eich ardal leol?

Pa mor hen yw'r adeiladau neu'r arwynebau hyn yn eich barn chi?

Efallai y gwelwch chi gerrig pafin, tarmac ar y ffordd a chwteri concrit.

Yma ac acw ar y palmant, mae'r arwyneb yn cynnwys patrwm wedi'i godi, er enghraifft yn agos i groesfannau i gerddwyr.

Pwy sy'n cael eu helpu gan yr arwynebau cyffyrddol hyn, yn eich barn chi? (e.e. palmant â phatrwm wedi'i godi– yn agos i groesfan i gerddwyr)

| Adeilad/Arwyneb | Enw'r deunydd neu'r deunyddiau | Diben y deunydd neu'r deunyddiau | Ydyn nhw'n hen neu'n newydd? Pam? | Rhwbiad o'r arwyneb neu'r deunydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## Nodiadau i Athrawon

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd – OS3 – Llafaredd – Siarad: Trefnu syniadau/siarad. OC2 – Llafaredd – Cydweithio a Thrafod: Cymryd rhan a rhoi rhesymau. WM1 – Trefnu Gwybodaeth a Syniadau: Ysgrifennu at bwrpas.

## Gweithgaredd pellach

# Sut mae'r tir yn cael ei ddefnyddio yn yr ardal leol? Gadewch inni gynnal arolwg tir!

### Gwaith ymchwil

Cyn ymweld â'r ardal leol, edrychwch ar fap ohoni. Lliwiwch wahanol fathau o ddefnyddio'r tir â lliwiau gwahanol, e.e. lliwiwch yr holl ardaloedd preswyl yn goch; siopau a swyddfeydd – oren; cyfleusterau hamdden – melyn; parciau – gwyrdd, etc. Lluniwch allwedd i'ch map. Allwch chi weld unrhyw batrymau? Ble mae'r tai wedi'u lleoli? Ble mae'r mwyafrif o'r siopau wedi'u lleoli? Etc.


### Amser archwilio

Ewch i'r stryd fawr neu i stryd arall yn eich ardal leol. Sut mae'r tir yn y stryd wedi cael ei ddefnyddio? Cofnodwch eich canfyddiadau drwy ddefnyddio'r templed ar y tudalen nesaf.

*Dyma enghraifft o arolwg sydd wedi'i gwblhau*

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| Preswyl (cartrefi) | |
| Siop | |
| Swyddfa | |
| Caffi | |
| Eglwys/Capel | |
| Ysgol/ Adeilad Cyhoeddus | |
| Eraill | |
| Gwag | |




## Nodiadau i Athrawon

Yn gyntaf i gyd dewiswch stryd i edrych arni. I sicrhau ei bod yn hydrin, canolbwyntiwch ar adran ddiddorol o'r stryd. Yn yr enghraifft yma rydyn ni wedi dewis adran ag 20 o adeiladau (10 yr un ar y ddwy ochr).

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd – OS3 – Llafaredd – Siarad: Trefnu syniadau/siarad. OC2 – Llafaredd – Cydweithio a Thrafod: Cymryd rhan a rhoi rhesymau. WM1 – Trefnu Gwybodaeth a Syniadau: Ysgrifennu at bwrpas.

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| Preswyl (cartrefi) | |
| Siop | |
| Swyddfa | |
| Caffi | |
| Eglwys/Capel | |
| Ysgol/ Adeilad Cyhoeddus | |
| Eraill | |
| Gwag | |



## Gweithgaredd pellach

# Oes adeiladau/lleoedd hen neu ddiddorol yn ein hardal leol? Gadewch inni chwilio!

**'Ydy fy stryd fawr/ardal leol wedi newid dros amser?'**
**Amser gwneud gwaith ditectif!**

Mae strydoedd mawr yn newid dros y blynyddoedd. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau'n cael eu rhentu ar brydles. Mae'r brydles yn dweud sut gall yr adeilad gael ei ddefnyddio – er enghraifft, os gall fod yn dŷ bwyta, siop neu swyddfa.

Efallai eich bod yn gallu cofio beth oedd rhai o adeiladau'ch stryd fawr chi'n arfer bod?

Gwaith ymchwil: Efallai fod gan eich llyfrgell neu'ch amgueddfa lyfrau hanes lleol a hen luniau o'r dref ynddynt, yn dangos pa siopau oedd yno ers lawer dydd, neu hen fapiau a llyfrau busnes. Mathau o arwyddion.

**Ewch allan i'ch ardal neu'ch stryd leol a thynnwch luniau o hen adeiladau. Chwiliwch am wybodaeth am yr adeiladu hyn:**

- Pa mor hen ydyn nhw?
- Pam cawson nhw eu hadeiladu?
- Pwy oedd yn arfer byw/gweithio yno?
- Ffaith/gwybodaeth ddiddorol i dwristiaid?

**TASG:** Cyflwyniad i berswadio beirniad y gystadleuaeth sut mae'ch stryd fawr neu'ch ardal leol wedi newid dros amser.

## Her

Lluniwch godau QR ar gyfer yr hen adeiladau/tirnodau arbennig hyn i'w cynnwys yn eich cyflwyniad.

## Nodiadau i Athrawon

Gallai'r dasg a'r her fod yn weithgaredd dynodedig neu'n weithgaredd i'w asesu ar ddiwedd yr Uned.

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: OS2 – Llafaredd: Siarad: Esbonio a Chyflwyno. OS3 – Llafaredd – Siarad: Trefnu syniadau/siarad. OS4 – Llafaredd – Siarad: Siarad yn eglur, addasu'ch siarad. OC2 – Llafaredd – cydweithio a Thrafod: Cymryd rhan a rhoi rhesymau. RS5 – Strategaethau Darllen: Sgimio a sganio. RS3 - Strategaethau Darllen: Darllen geiriau a thestunau. RS7: Strategaethau Darllen: Defnyddio Cliwiau Gweledol. WM1 – Trefnu Gwybodaeth a Syniadau: Ysgrifennu at bwrpas.

## Gweithgaredd pellach

# Gadewch inni weld pam mae Cymru'n wlad gyffrous a diddorol!

**Mae ar 'Croeso Cymru' angen diweddaru eu gwefan. Allwch chi helpu?**

Dyluniwch daith gyffrous a diddorol o gwmpas Cymru i ymwelydd o Ewrop.

**Cynllunio'ch taith!**

- Edrychwch ar fap Gymru a phenderfynwch ble bydd eich taith yn dechrau (A, e.e. Caernarfon) ac yn gorffen (B, e.e. Caerdydd)
- Penderfynwch i ble y byddwch chi'n mynd rhwng A a B (e.e. Aberystwyth, Caerfyrddin, Abergwaun, Abertawe, etc.) Pam rydych chi wedi dewis y lleoedd hyn? Beth sy'n ddiddorol ynglŷn â nhw? (e.e. Caerdydd, canolfan rafftio dŵr gwyn)
- Sut byddwch chi'n teithio o'r naill le i'r llall? (car, bws, trên)
- Pa mor hir fyddwch chi'n teithio o'r naill le i'r llall? (e.e. bws – amserlenni bws, car – llwybrau'r AA http://www.theaa.com/

**Mapio'ch taith!**

- Nodwch y lleoedd ar fap o Gymru
- Rhowch rifau i'r lleoedd yn nhrefn amser.
- Ychwanegwch ffotograffau o'r lleoedd y byddwch yn ymweld â nhw ar eich taith.
- Ychwanegwch wybodaeth am sut i ddefnyddio'r daith, e.e. sut y bydden nhw'n mynd o'r naill le i'r llall (e.e. bws), cost y siwrnai (e.e. cerdyn rheilffordd £15), amser teithio (e.e. 30 munud), ffeithiau difyr am y lle (hynny yw pam dylen nhw ymweld â'r lle)

## Nodiadau i Athrawon

Llwybrau Sgiliau Llythrennedd: WM1 = Ysgrifennu: Trefnu Gwybodaeth a Syniadau: Ysgrifennu at bwrpas. Llwybrau Sgiliau Rhifedd – Datblygu Ymresymiad Rhifyddol: trosglwyddo sgiliau, dethol gwybodaeth, cyflwyno canlyniadau, nodiant priodol, tynnu casgliadau, cyfiawnhau atebion. N17: Gweithio gydag arian. M5: Amser. M9: Cyfeiriad. Tasg Asesu LNF Gyfoethog bosibl.